**GEM DU: Adroddiad Cymru 2014**

Jonathan Levie, Mark Hart a Karen Bonner

Mae'r Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang (GEM) yn brosiect rhyngwladol yn cynnwys 73 o economïau yn 2014 sy'n ceisio darparu gwybodaeth ar dirlun entrepreneuraidd gwledydd. Mae llawer o astudiaethau wedi dangos bod entrepreneuriaeth yn yrrwr pwysig ar gyfer twf economaidd, cystadleurwydd a chreu swyddi. Defnyddir canlyniadau'r dadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol ledled y byd. Maint y sampl yng Nghymru oedd 2,977 o oedolion dros 16 oed yn 2014 o ganlyniad i Lywodraeth Cymru'n rhoi hwb i'r sampl genedlaethol.

## Y Prif Ganfyddiadau

- **Y gyfradd o entrepreneuriaeth gam-cynnar (TEA) yng Nghymru ar gyfer 2014 oedd 7.1 y cant. Nid oedd hyn yn wahanol iawn i'r amcangyfrifon o 9.1 y cant ar gyfer Lloegr ac 8.6 per ar gyfer y DU gyfan, a hefyd nid oedd yn wahanol iawn i gyfradd 2013 o 5.4 y cant.**

- **Y gyfradd TEA a yrrwyd gan angenrheidrwydd yn 2014 oedd 1.4 per cent, bron yn ddigyfnewid o gyfradd 2013, tra oedd TEA a yrrwyd gan gyfle'n sefyll ar 5.6 y cant, nad yw'n wahanol iawn i'r amcangyfrif o 4.0 yn 2013.**

- **Arhosodd y gyfradd TEA ar gyfer menywod yn agos i'w gyfradd 2013 ar 4.9 y cant, a oedd wedi symud i lawr o'r uchaf erioed o 6.1 y cant yn 2011. Nid oedd hyn yn wahanol iawn i amcangyfrif y DU o 5.7 y cant. Fodd bynnag, syrthiodd y gymhareb benyw i wryw o TEA o 65 y cant i 52 y cant yn 2014 (DU 49%, i lawr o 66%).**

- **Cododd y gyfradd TEA ar gyfer oedolion ifanc rhwng 18 a 29 oed o 4.9 y cant yn 2013 i 8.4 y cant yn 2014 (DU: 7.3%, i fyny o 6.4% yn 2013), tra oedd y gyfradd TEA ymhlith pobl rhwng 30 a 64 oed yn 6.9 y cant (5.4% yn 2013), yn is o lawer na chyfartaledd y DU o 9.3 y cant (7.5% yn 2013) a'r gyfartaledd ar gyfer Lloegr (9.8%).**

- **Fe wnaeth agweddau entrepreneuraidd yng Nghymru wella yn 2014. Cododd canfyddiad cyfle o 25.1 y cant o'r boblogaeth an-entrepreneuraidd o oedran gweithio i 29.5 per cent. Hefyd fe wnaeth canfyddiad cyfle yn y DU o 33.2 y cant i 36.8 y cant.**

- **Fe wnaeth y ganran o unigolion an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru oedd yn gweld cyfleoedd ond bod arnynt ofn cychwyn busnes rhag ofn y byddai'n methu aros yn ddigyfnewid yn 2014 ar 39.4 y cant (39.2% yn 2013). Hefyd roedd y ffigur ar gyfer y DU yn debyg i'r un yn 2013 (DU: 43.0% o 41.4%).**

- **Fe wnaeth y ganran o unigolion an-entrepreneuraidd o oedran gweithio yng Nghymru sy'n disgwyl cychwyn busnes o fewn y tair blynedd nesaf godi'n sylweddol i 7.8 y cant (3.9% yn 2013). Hefyd cynyddodd bwriadau cychwyn yn sylweddol yn y DU o 5.4 y cant i 8.5 y cant.**

## Cefndir

Seilir y Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang (GEM) ar y syniadau dilynol. Yn gyntaf, mae ffyniant economi'n ddibynnol iawn ar sector entrepreneuriaeth ddynamig. Yn ail, mae capasiti entrepreneuraidd economi'n cynnwys unigolion o'r holl grwpiau yn y gymdeithas â'r gallu a'r brwdfrydedd i gychwyn busnesau, a mae'n galw am ganfyddiadau cymdeithasol positif ynghylch entrepreneuriaeth. Yn drydydd, mae entrepreneuriaeth dwf-uchel yn gyfrannwr allweddol i gyflogaeth newydd mewn economi, a mae cystadleurwydd cenedlaethol yn dibynnu ar fentrau entrepreneuraidd arloesol a trawsffiniol.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru (WG) noddi cydran Gymreig y prosiect ymchwil GEM DU. Mae'r broses o ysgogi entrepreneuriaeth yn dal i fod yn her bwysig ar gyfer y rhanbarth a mae WG wedi achub y blaen trwy sicrhau ei bod wedi'i hymgorffori o fewn ei gweithgareddau craidd. Dyma'r ddeuddegfed blwyddyn mae'r WG wedi cymryd rhan yn GEM. O'r 853,000 o ymatebwyr i GEM UK ar gyfer y cyfnod 2002-2014, roedd mwy na 50,000 o ymatebwyr o Gymru. Erbyn hyn mae gan Gymru'r gronfa ddata fwyaf ar agweddau, gweithgarwch a dyheadau entrepreneuraidd o unrhyw ran o'r DU ar gyfer y cyfnod hwn. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynnal dadansoddiad o dueddiadau ar gyfer is-boblogaethau pwysig yng Nghymru, megis menywod, pobl iau neu bobl hŷn, mewn cysylltiad â'r cenhedloedd cartref eraill.

Defnyddir canlyniadau'r dadansoddiad data GEM fel dangosyddion meincnodi allweddol gan awdurdodau rhanbarthol a chenedlaethol ledled y byd. Hefyd maent yn galluogi i gymariaethau gael eu gwneud â rhanbarthoedd eraill y DU a gwledydd eraill sy'n cymryd rhan yn GEM. Yn gyffredinol, mae gallu unigryw GEM i ddarparu gwybodaeth ar dirlun entrepreneuraidd gwledydd mewn cyd-destun byd-eang yn golygu bod ei ddata'n adnodd angenrheidiol ar gyfer unrhyw ymgais ddifrifol i astudio ac olrhain ymddygiad entrepreneuraidd.

Mae'n bwysig inni ddeall penderfynyddion entrepreneuriaeth gam-gynnar yn well, gan fod tystiolaeth i awgrymu cysylltiad rhwng cyfraddau uwch o entrepreneuriaeth a ffyniant economaidd cyffredinol, yn arbennig mewn economïau fel Cymru a yrrir gan arloesedd.

**Sut mae GEM yn Mesur Gweithgarwch Entrepreneuraidd**

Mae GEM yn creu mynegai o weithgarwch entrepreneuraidd cam-cynnar (y'i gelwir TEA) trwy ddefnyddio'r ymagwedd ddilynol:

- Cynhelir arolwg ffôn o hapsampl o'r boblogaeth o oedoliondul rhwng Mai a Medi..
- Y mynegai TEA yw cyfanswm yr ymatebwyr hynny a ddosbarthir fel entrepreneuriaid cychwynnol[1] ac entrepreneuriaid cwmni newydd[2].

Nid yw'r mynegai TEA yn mesur yr holl weithgarwch entrepreneuraidd ac nid yw wedi'i seilio ar arolwg o endidau busnes. Mae'n mesur nodweddion unigolion entrepreneuraidd a'r mathau o endidau maent yn eu sefydlu. Oherwydd hynny mae'n fesur unigryw a rhyngwladol-gymharol o duedd ddiwylliannol cenedl, neu ranbarth, i fod yn entrepreneuraidd.

Un dull o wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o weithgarwch entrepreneuraidd yw'r graddau mae'r gweithgarwch wedi'i seilio ar angenrheidrwydd (h.y. nad oes dewisiadau amgen gwell ar gyfer gwaith) neu gyfle (lle gallai entrepreneuriaid ecsbloetio'r posibilrwydd o greu marchnad newydd).
Ers 2011 mae gweithgarwch entrepreneuraidd ymhlith cyflogeion wedi cael ei fesur. Erbyn hyn gwyddom y gall diwylliant a rheoliadau effeithio ar y ffordd y mynegir gweithgarwch entrepreneuraidd o fewn cenhedloedd. Mewn gwledydd lle mae entrepreneuriaid yn cael llai o lawer o fynediad i nawdd cymdeithasol na chyflogeion,

---

[1] Y cyfnod cynllunio gweithredol lle mae'r entrepreneur wedi gwneud rhywbeth yn y 12 mis diwethaf i helpu i gychwyn busnes newydd, busnes newydd y bydd ef/hi'n berchen arno o leiaf yn rhannol, a sydd heb dalu cyflogau neu incwm arall i'r perchnogion yn y 3 mis diwethaf.

[2] Diffinir yr ail gyfnod fel y cyfnod o 4 i 42 mis wedi i'r fenter newydd ddechrau darparu incwm i'r perchnogion. Cyfeirir entrepreneuriaid sydd o leiaf yn berchen ar ac yn rheoli busnes newydd yn rhannol sydd wedi bod yn talu rhyw fath o incwm i'r perchnogion am o leiaf 4 a ddim mwy na 42 mis fel entrepreneuriaid cwmni newydd.

er enghraifft, mae gweithgarwch entrepreneuraidd yn tueddu i gynnwys cyfran uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cyffredinol[3].

Yn ychwanegol i weithgarwch, mae'r arolwg GEM yn gofyn i'r holl ymatebwyr am eu hagweddau tuag at weithgarwch entrepreneuraidd, ac yn gofyn i entrepreneuriaid am eu dyheadau.

Esbonir y methodoleg, meintiau sampl a systemau pwysoli a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg poblogaeth o oedolion GEM DU 2014 yn fanylach yn yr adroddiad GEM DU 2014 (www.gemconsortium.org). Cyflwynwyd newid pwysig yng nghynllun y sampl yn 2010 pan ddewiswyd 10 y cant o'r ymatebwyr ym mhob Swyddfa Ranbarthol y Llywodraeth (GOR) ar hap o gartrefi a oedd yn meddu ar ffonau symudol ond nid llinellau tir gosod. Yn 2014, cynyddwyd hyn i 20 y cant, yn unol ag amcangyfrifon diweddar yn y gyfran o gartrefi ffonau symudol yn unig yn y DU.


Mae'r adroddiad dilynol yn cyflwyno crynodeb o'r prif ganlyniadau, a themâu allweddol sy'n codi o'r arolwg GEM yn 2014 a'r dadansoddiad o'r deuddeg mlynedd o ddata GEM (2002-14).

### Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam-cynnar (y mynegai TEA)

Y gyfradd o entrepreneuriaeth gam-cynnar yng Nghymru yn 2014 oedd 7.1 y cant. Roedd hwn yn uwch na'r amcangyfrif o 5.4 y cant yn 2013, er nad yn llawer uwch, a hefyd heb fod yn wahanol iawn i'r amcangyfrif o 9.1 y cant ar gyfer Lloegr ac amcangyfrif y DU o 8.6 y cant. Yr Alban oedd yr unig genedl gartref i gael cyfradd TEA a oedd yn sylweddol is na'r un ar gyfer Lloegr yn 2014 (Ffigur 1).

Ar y cyfan, mae cyfradd TEA o 7.1 y cant yng Nghymru'n hafal i oddeutu un o bod pedwar oedolyn ar ddeg rhwng 18-64 oed neu oddeutu 146,000 o unigolion, 58 y cant ohonynt a oedd yng nghamau cynnar iawn y broses o gychwyn busnes (entrepreneuriaid cychwynnol 4.1 y cant) a'r gweddill oedd y rhai hynny oedd yn meddu ar fusnes newydd a oedd rhwng 3 a 42 mis oed.


[3] Bosma, N. et al. (2013) Adroddiad arbennig Monitor Entrepreneuriaeth Fyd-eang ar weithgarwch entrepreneuraidd cyflogeion. Llundain: Cymdeithas Ymchwil Entrepreneuriaeth Fyd-eang.




**Ffigur 1: Cyfanswm gweithgarwch entrepreneuraidd cam-cynnar (TEA) yng nghenhedloedd cartref y DU 2014** (Ffynhonnell: APS GEM)


Fe wnaeth y gyfradd weithgarwch entrepreneuraidd gam-cynnar yng Nghymru, megis y y DU, aros yn gymharol wastad rhwng 2004 a 2010, gan godi'n eithaf cyflym wedyn. Yn wahanol i'r DU, fe wnaeth y gyfradd yng Nghymru ddisgyn yn 2012, a disgynnodd ymhellach tuag at y gyfartaledd hirdymor yn 2013. Ymddengys fod y cyfraddau TEA yn adfer yng Nghymru a'r DU fel ei gilydd yn 2014, er bydd rhaid aros i weld a yw hyn yn dros dro neu beidio (Ffigur 2a).

Yn 2014 y gyfradd weithgarwch entrepreneuraidd gychwynnol yng Nghymru oedd 4.1 y cant, i fyny rhywfaint o 3.5 y cant yn 2013; hefyd roedd y gyfradd fusnes newydd i fyny o 2.0 y cant i 3.2 y cant. Hefyd fe wnaeth y cyfraddau entrepreneuriaeth gychwynnol a newydd gynyddu yn y DU gyfan; er bod cyfradd y cynnydd yn y DU yn uwch ar gyfer entrepreneuriaeth gychwynnol, yn codi o 3.8 i 4.9 y cant, o gymharu â chynnydd o 3.6 i 3.8 y cant ar gyfer perchnogion busnesau newydd.





**Ffigur 2a: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam-cynnar yng Nghymru a'r DU (2002-14).** (Ffynhonnell: APS GEM)

Mae ffigur 2b yn awgrymu y gallai'r gostyngiad yn y lefel o weithgarwch entrepreneuraidd cam-cynnar yng Nghymru yn ystod 2012-13 wedi'i ganolbwyntio yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn hytrach nag yn Nwyrain Cymru, er nad yw'r gwahaniaethau rhwng y ddwy'n ystadegol sylweddol. Efallai fod y brig mewn gweithgarwch entrepreneuraidd yn Nwyrain Cymru yn 2009 yn anomaledd oherwydd maint sampl bach.




**Ffigur 2b: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam-cynnar yn Nwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU (2002-14).** (Ffynhonnell: APS GEM)

Roedd TEA a yrrir gan angenrheidrwydd yng Nghymru yn 2014 yn 1.4 y cant, bron yn ddigyfnewid o gyfradd 2013. Roedd TEA a yrrir gan gyfle'n 5.6 y cant, ddim yn wahanol iawn i'r amcangyfrif o 4.0 y cant yn 2013. Roedd TEA a yrrir gan angenrheidrwydd fel cyfran o'r holl TEA yn 19 y cant, fodd bynnag roedd yn uwch na'r un mewn cenhedloedd cartref eraill (Ffigur 3).





**Ffigur 3: Entrepreneuriaeth Gyfle ac Angenrheidrwydd yng Nghenhedloedd Cartref y DU yn 2014.** (Ffynhonnell: APS GEM 2014)

### *Pwy yw'r Entrepreneuriaid yng Nghymru?*


**Rhyw:** Yn 2014 yn yr holl genhedloedd cartref, ac eithrio'r Alban, roedd gan ddynion gyfradd TEA uwch na menywod. Hefyd yr Alban oedd yr unig cenedl gartref â chyfradd TEA sylweddol is ar gyfer dynion nag yn Lloegr; nid oedd unrhyw wahaniaeth ymhlith y cyfraddau TEA ar gyfer menywod yn y cenhedloedd cartref.

Mae'r gymhareb o weithgarwch entrepreneuraidd cam-cynnar fenyw i wryw fel arfer yn amrywio ar draws y pedair cenedl gartref. Fe wnaeth y gymhareb yng Nghymru ddisgyn o 65 y cant i 52 y cant yn 2014, a oedd ychydig yn uwch na chymhareb y DU o 49 y cant. Er bod cymarebau blynyddol yn debygol o amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae'r cymarebau hirdymor dros y cyfnod 2002 i 2014 yn awgrymu bod gan Gymru gymhareb debyg, ar 54 y cant, i Loegr (49%) a'r Alban (51%) ond yn uwch na Gogledd Iwerddon (36%).




**Ffigur 4: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam-cynnar yn ôl Rhyw yng Nghenhedloedd Cartref y DU yn 2014.** (Ffynhonnell: APS GEM 2014)


Fe wnaeth y gyfradd TEA yng Nghymru ddisgyn o'r pwynt uchaf erioed o 6.1 y cant yn 2011 i'w chyfartaledd hirdymor o 4.0 y cant yn 2012 a 2013. Erbyn 2014 roedd y gyfradd yn sefyll ar 4.9 y cant. Fe wnaeth y gyfradd TEA Gymrieg ar gyfer dynion ddisgyn yn sylweddol o 10.1 y cant i 6.5 y cant rhwng 2011-13 ond erbyn 2014 roedd wedi cynyddu eto i 9.4 y cant. Gallwn weld o Ffigur 5 bod cyfraddau TEA ar gyfer menywod yng Nghymru wedi cyfateb â thuedd y DU ar y cyfan er eu bod yn fwy cyfnewidiol o flwyddyn i flwyddyn oherwydd maint sampl cymharol fach; fodd bynnag y duedd yn y tymor canolig yw tuag i fyny.





**Ffigur 5: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam-cynnar ar Gyfer Menywod yng Nghymru a'r DU, 2002-2014.** (Ffynhonnell: APS GEM)

**Oedran:** Fel mae Ffigur 6 yn ei ddangos, mae unigolion rhwng 35-44 oed yn arddangos y gyfradd uchaf o weithgarwch entrepreneuraidd cam-cynnar yn y DU, ac yn Lloegr yn 2014. Mae'r patrwm rywfaint yn wahanol ymhlith y cenhedloedd cartref eraill â'r cyfraddau uchaf yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ymddangos yn y grŵp oedran 45-54. Ers sawl blwyddyn, mae dosbarthiad y gyfradd TEA yn ôl oedran wedi bod yn symud tuag at genhedlaeth iau yng Nghymru, ac yn 2014 mae'r grŵp oedran 25-34 yn arddangos y cyfraddau TEA uchaf.

YIn 2014 roedd y gyfradd ar gyfer pobl 18-24 oed yng Nghymru eto yn debyg i'r un ar gyfer y DU (Ffigur 7), ac roedd proses gydgyfeirio'r ddwy gyfres yn debyg i'r duedd a welwyd cyn y dirwasgiad. Mae'r gyfradd uwch o weithgarwch entrepreneuraidd cam-cynnar ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru yn ystod y dirwasgiad yn awgrymu y gallai'r hinsawdd economaidd gwydn wedi ysgogi'r gweithgarwch entrepreneuraidd cynyddol hwn; roedd y diffyg swyddi'n golygu bod angen cychwyn mewn hunangyflogaeth sydd erbyn hyn wedi lleihau wrth i'r economi adfer.





**Ffigur 6: Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam-cynnar yng Nghenhedloedd Cartref y DU, 2014.** (Ffynhonnell: APS GEM, 2014)





**Ffigur 7: Tuedd o ran Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam-cynnar ymhlith pobl 18-24 oed yng Nghymru a'r DU, 2002 i 2014.** (Ffynhonnell: APS GEM, 2002 i 2014)

I gael dadansoddiad mwy defnyddiol efallai byddai'n well asesu sut mae cyfraddau TEA wedi newid yn y grŵp oedran 18 i 29 (lle ymddengys fod toriad naturiol yn y data gweithgarwch GEM DU) a'u cymharu â'r grŵp oedran 30 i 64. Mae ffigurau 8 a 9 yn dangos bod y TEA ar gyfer oedolion ifanc yng Nghymru wedi bod yn gymharol uchel ers 2008; yn uwch nag ar gyfer pobl 30-64 oed ac yn dychwelyd i'r sefyllfa hon yn 2014 wedi'r gostyngiad yn y ddwy flynedd blaenorol. Mewn cyferbyniad, mae

cyfraddau TEA ymhlith pobl 30 i 64 oed yng Nghymru wedi bod yn gyson is na'r rhai hynny ar gyfer Lloegr, a mewn gwirionedd yn 2014 roedd y cyfraddau TEA yn y cenhedloedd cartref yn sylweddol is nag yng nghyfradd Lloegr ar gyfer y grŵp oedran hwn.





**Ffigur 8: Tuedd o ran Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam-cynnar yng nghenhedloedd cartref y DU ar gyfer pobl 18 i 29 oed, 2002 i 2014.** (Ffynhonnell: APS GEM, 2002 i 2014)




**Ffigur 9: Tuedd o ran Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam-cynnar yng nghenhedloedd cartref y DU ar gyfer pobl 30 i 64 oed, 2002 to 2014.** (Ffynhonnell: APS GEM, 2002 i 2014)

**Addysg:** Y gyfradd TEA ar gyfer graddedigion yn y DU yn 2014 oedd 10.8 y cant, a oedd yn sylweddol uwch na'r un ar gyfer pobl nad oedd yn raddedigion ar 7.4 y cant (Ffigur 10); hefyd roedd y gyfraddd ar gyfer pobl nad oedd yn raddedigion yn sylweddol uwch nag yn 2013 (5.5 y cant). Y gyfradd ar gyfer graddedigion yng Nghymru yn 2014 oedd 8.5 y cant o gymharu â'r un ar gyfer pobl nad oedd yn raddedigion o 6.4 y cant; fodd bynnag nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y ddwy gyfradd, neu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yr unig cyfraddau oedd yn arwyddocaol wahanol yn 2014 rhwng graddedigion a'r rhai nad oedd yn raddedigion oedd yn y DU, Lloegr a Gogledd Iwerddon.





**Ffigur 10: Tuedd o ran Cyfanswm Gweithgarwch Entrepreneuraidd Cam-cynnar yng nghenhedloedd cartref y DU yn ôl Statws Graddio, 2014.** (Ffynhonnell: APS GEM, 2014)

### Agweddau a Bwriadau Entrepreneuraidd

Mae GEM wedi datblygu nifer o ddatganiadau agweddol sy'n darparu dirprwy ar gyfer potensial entrepreneuraidd mewn gwlad/rhanbarth. Maent yn cynnwys adnabod person sydd wedi cychwyn busnes yn ystod y 2 flynedd diwethaf, canfyddiad o gyfleoedd da ar gyfer cychwyn, hunan-gred o ran meddu ar y sgiliau perthnasol i sefydlu busnes a phresenoldeb ofn methu fel rhwystr i sefydlu busnes.


Mae'n well trin data agweddol GEM ar y lefel grŵp yn hytrach na'r lefel unigol, gan y gallai unigolion sydd eisoes yn entrepreneuriaid deimlo bod rhaid iddynt ddarparu atebion yn yr Arolwg o'r Boblogaeth Oedolion (APS). Felly, fel yn y blynyddoedd diwethaf, rydym yn adrodd am ddata agweddol dim ond ar gyfer y gyfran honno o'r boblogaeth nad ydynt eisoes yn entrepreneuriaid.

Yng Nghymru yn 2014, mae ychydig dros un o bob pedwar (27.0%) o unigolion yn datgan eu bod yn adnabod entrepreneur. Mae hyn oddeutu'r un cyfran ag yn y DU gyfan (Ffigur 11), a heb fod yn sylweddol wahanol i flynyddoedd blaenorol. Yng Nghymru mae oddeutu dau o bob pump (39.3%) o bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid yn credu bod ganddynt y sgiliau i sefydlu busnes – et'n debyg i gyfartaledd y DU ar 38.4 y cant.





**Ffigur 11: Agweddau a Chanfyddiadau Entrepreneuraidd yng Nghymru a'r DU 2014.** (Ffynhonnell: APS GEM, 2014)

Roedd y gyfran o'r boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuraidd sy'n gweld cyfleoedd cychwyn da ond yn adrodd y byddai ofn methu'n eu hatal rhag cychwyn busnes yn sefyll ar 39.4 y cant yn 2014, a oedd fwy neu lai'n ddigyfnewid o 2013 ac yn debyg i ffigur y DU o 43.0 y cant. Mae Ffigur 12 yn dangos bod ofn methu'n codi'n llymach yng Nghymru na mewn cenhedloedd cartref eraill ers i'r dirwasgiad gychwyn yn 2007, ond erbyn hyn mae wedi disgyn yn unol â'r cenhedloedd cartref eraill.





**Ffigur 12: Ofn Methu ymhlith y rhai hynny sy'n gweld Cyfleoedd yng Nghenhedloedd Cartref y DU, 2002-14**. (Ffynhonnell: APS GEM)

Yn yr arolwg yn 2014, dim ond 29.5 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuraidd yng Nghymru oedd yn cytuno bod cyfleoedd da'n bodoli ar gyfer cychwyn busnes yn eu hardal leol yn y chwe mis nesaf, o gymharu â 36.8 y cant yn y DU. Roedd y ddwy'n arwyddocaol uwch na'u hamcangyfrifon yn 2013, fodd bynnag roedd y bwlch arwyddocaol o ran canfod cyfleoedd rhwng Cymru a'r DU yn aros. (Ffigur 13).





**Ffigur 13: Canfod Cyfleoedd Cychwyn yng Nghymru a'r DU, 2002-14.** (Ffynhonnell: APS GEM)

Wrth edrych tua'r dyfodol, fe wnaeth y gyfran o oedolion oedran gweithio nad ydynt yn entrepreneuraidd yng Nghymru sy'n disgwyl cychwyn busnes o fewn y tair blynedd nesaf godi'n sylweddol i 7.8 y cant o 3.9% yn 2013 (Ffigur 14). Hefyd cododd amcangyfrif y DU yn arwyddocaol o 5.4 y cant i 8.5 y cant. Mae'r codiadau'n gyson â'r symudiad cyffredinol i fyny o ran gweithgarwch entrepreneuraidd yn 2014 yn arbennig o ystyried y canfyddiad gwell o gyfleoedd cychwyn, sy'n awgrymu dychweliad i optimistiaeth ymhlith y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuraidd.




**Ffigur 14: Disgwyliadau Cychwyn y Dyfodol (o fewnn 3 blynedd) yng Nghymru a'r DU ymhlith y boblogaeth nad ydynt yn entrepreneuraidd,** (Ffynhonnell: GEM APS)

Yn 2014, roedd y gyfran o ddynion gweithgar nad ydynt yn entrepreneuraidd yng Nghymru a ddatganodd eu bod yn bwriadu cychwyn busnes yn y tair blynedd nesaf yn sylweddol uwch na'r un ar gyfer benywod (Ffigur 15) ar 10.1 y cant ar gyfer dynion a 5.4 y cant ar gyfer benywod. Roedd y gymhareb fenyw i wryw ar gyfer bwriadau cychwyn yng Nghymru'n 53 y cant, i lawr o 67 y cant yn 2013 a oedd yn debyg i'r Alban a Gogledd Iwerddon, er ei fod yn is na'r gymhareb Seisnig o 65 y cant. Yn gyffredinol, mae bwriadau cychwyn ar gyfer yr holl genhedloedd cartref wedi codi dros y flwyddyn ddiwethaf.



**Ffigur 15: Disgwyliadau Cychwyn y Dyfodol (o fewnn 3 blynedd) yng Nghenhedloedd Cartref y DU yn ôl Rhyw, 2014** (Ffynhonnel: APS GEM, 2014)

### Rhuglder Iaith Gymraeg a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn 2013 o ran cyfradd TEA y rhai hynny yng Nghymru oedd yn rhugl yn Gymraeg lafar a Chymraeg ysgrifenedig (9.1%), a allai siarad a deall rhywfaint o Gymraeg (5.8%) a'r rhai oedd ag ychydig neu ddim sgiliau Cymraeg (7.4%).

### Hyfforddiant, Ymwybyddiaeth a Gweithgarwch Entrepreneuraidd

Yn 2014 roedd 40.5 y cant o entrepreneuriaid cychwynnol a newydd 18 i 24 oed ac 1.8 y cant o entrepreneuriaid 25 i 30 oed wedi clywed am Syniadau Mawr Cymru[4], o gymharu â 28.3 y cant o bobl eraill 18 i 24 oed a 25.9 y cant o bobl eraill 25 i 30 oed. Yn gyffredinol nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng yr holl bobl 18-24 oed (29.0%) a'r holl bobl 25-30 oed (25.4%). Yn gyffredinol, roedd 27.7 y cant o oedolion ifanc 18 i 30 oed wedi clywed am Syniadau Mawr Cymru, a oedd yn sylweddol uwch nag amcangyfrif 2013 o 14.2 y cant[5].

Ers 2014 rydym wedi gofyn i'r holl ymatebwyr a ydynt wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau yn yr ysgol, coleg neu'r brifysgol a achosodd iddynt ystyried cychwyn busnes neu fod yn feistr arnynt eu hunain[6]. Yng Nghymru dywedodd 7.8 y

[4] Yr enw blaenorol ar hwn oedd Adnoddau Dynamo.
[5] Sylwer bod y gyfres hon yn eithaf cyfnewidiol oherwydd y nifer fach o arsylwadau.
[6] Mae'r cwestiwn hwn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol pan y'i gofynnwyd i bobl 18-30 oed yn unig.

cant o bobl eu bod wedi cymryd rhan yn y fath weithgareddau, a chododd hyn at 14.0 y cant o bobl 18-29 oed. Roedd y ffigur olaf yn debyg i Loegr a’r Alban, ar 16.0 y cant yn ei dro, er ei fod yn is na’r gyfradd yng Ngogledd Iwerddon ar 29.9 y cant.

Yn 2014, roedd cyfrannau tebyg iawn o bobl yn y cenhedloedd cartref wedi clywed am Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd: 10.9 y cant yng Nghymru, 8.6 y cant yn Lloegr, 8.3 y cant yn yr Alban, a 9.3 y cant yng Ngogledd Iwerddon. Roedd yr holl amcangyfrifon hyn yn uwch na 2013, er nad i raddau helaeth.

**Sylwadau Terfynol**

Ymddengys fod hyder newydd yn yr economi Cymreig yn 2014, fel a amlygir gan y gyfradd TEA gryf, sy’n uwch na’r cyfartaledd hirdymor, ar y cyd â’r cynnydd sylweddol o ran bwriadau cychwyn. Mae gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru’n tueddu i gael ei ganolbwyntio ymhlith y grwpiau oedran iau, a hefyd adlewyrchir y gwelliant mewn amodau economaidd yn y cynnydd o ran gweithgarwch entrepreneuraidd ymhlith pobl 18-29 oed a bwlch culach rhwng cyfraddau gweithgarwch ar gyfer pobl 18-24 oed yng Nghymru o gymharu â’r DU. Mae’r ffaith ddiwethaf yn awgrymu nad yw’r argaeledd cynyddol o swyddi fel cyflogeion yn golygu bod rhaid i bobl ifanc iawn fynd i mewn i hunangyflgaeth bellach.

Gwelir yr optimistiaeth newydd yn yr economi yn glir yn y metrigau agwedd, â chynnydd sylweddol yn cael ei adrodd o ran y cyfleoedd ar gyfer cychwyn busnes, a’r gyfran o bobl nad ydynt yn entrepreneuriaid sy’n disgwyl cychwyn busnes yn y tair blynedd nesaf yn dyblu yng Nghymru. Er gwaethaf y negeseuon positif hyn mae bwlch yn aros rhwng Cymru a’r DU o ran canfod cyfleoedd cychwyn tra bod ofn methu’n aros fel rhwystr sylweddol, er bod hyn yn wir ar gyfer y DU hefyd. Mewn gwirionedd, mae ofn methu, er ei fod wedi disgyn o’i frig o 50 y cant yn 2011 yng Nghymru, yn sefyll ar oddeutu 40 y cant yn 2014, sy’n gyfran debyg i’r cenhedloedd cartref eraill. O gofio bod hyn bron yn ddigyfnewid o’r gyfradd a adroddwyd yn 2002, mae’n awgrymu bod gan bolisi rôl i’w chwarae o ran lleihau’r effeithiau sy’n gysylltiedig â methiant busnes, ac felly’n lleihau’r ofn cysylltiedig sydd ynghlwm wrth gymryd y cam hwnnw i gychwyn.

**Ymwadiad**

Seilir yr adroddiad hwn ar ddata a gasglwyd gan y consortiwm GEM a'r tîm GEM DU; mae cyfrifoldeb am ddadansoddi a dehongli'r data'n unig gyfrifoldeb yr awduron.

**Am ragor o wybodaeth ar y prosiect GEM DU, cysylltwch â:**

Karen Bonner
Economics & Strategy Group
Aston Business School, Aston University
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
E-bost: k.bonner1@aston.ac.uk

Aston Business School

Yr Athro Mark Hart
Economics & Strategy Group
Aston Business School, Aston University
Aston Triangle, Birmingham, B4 7ET
E-bost: mark.hart@aston.ac.uk

Aston Business School

Yr Athro Jonathan Levie
Hunter Centre for Entrepreneurship,
University of Strathclyde,
Livingstone Tower, 26 Richmond Street,
Glasgow, G1 1XH
E-bost: j.levie@strath.ac.uk

University of Strathclyde Business School